

# Pererindod



Llyfrgell Sleidiau [cllic](#)

*Pe dymunir, gellir creu cyrchfannau gwahanol o fewn y capel (pedair cornel y capel, efallai) fel bod modd i'r aelodau ddilyn yr arweinydd ar bererindod bach a theithio o amgylch y gwahanol fannau yn ystod yr oedfa. Gellid gosod gwahanol bethau/creiriau yn y manau hynny i gyd-fynd â'r hyn gaiff ei drafod (e.e. darlun o Ynys Enlli, Llanddwyn, bisgedi, llyfrau ac ati). Neu gellir aros yn yr unfan yn y capel ac arddangos y darluniau cyfatebol ar sgrin. Gellir cwtogi'r oedfa fel y dymunir, neu ddefnyddio'r cyfan o'r 'cyrchfannau' isod.*

## GWEDDI

Dduw tragwyddol, sydd â'th gariad yn ymestyn dros ffiniau o bob math, gofynnwn ar i Ti ddod i ganol ein hoedfa fel ein bod i gyd yn teimlo'th gynhesrwydd. Ti, sydd yn ein cysgodi dan adain dy ras ac yn ein harwain ar hyd y llwybrau gorau, bydd gyda ni. Agor ein meddwl a'n calonnau i'th dderbyn a gwna ni'n gyfryngwyr i Ti, bob un ohonom. Dyro d'oleuni clir inni ar hyd ein taith, ar pa bynnag lwybr yr ydym ar hyn o bryd a beth bynnag sydd o'n blaenau. Bydd gyda ni ac aros gyda ni a phawb sy'n annwyl inni. Amen

**EMYN 682** 'Pererin wyf mewn anial dir'

## CYRCHFAN 1 / SGRIN 1

'Siwrne' yw pererindod, fel y gwyddom, sy'n mynd â ni i le dieithr neu i le nad yw'n gyfarwydd i ni. Cymhelliad y pererin yn aml yw chwilio am ystyr newydd – rhywbeth amgenach neu ehangach, rhywbeth amdano ei hun, am eraill, neu am y byd a bywyd. Mae'n chwilio am ddaioni sy'n fwy nag ef ei hun. Ac o ganlyniad fe gaiff y pererin ei arwain i ryw fath o weddnewidiad, i adnewyddiad ac adfywiad drwy'r adnabyddiaeth gafwyd drwy'r profiad. Canlyniad hyn yw y bydd y pererin yn dychwelyd i 'normalrwydd' gyda gogwydd newydd, golwg newydd ac egni newydd.

I'r Catholigion, mae gwneud rhywbeth anodd neu orchestol yn fodd o gyflawni penyd. Yn y wlad hon, datblygodd yr arfer o deithio ar bererindod i Gaergaint. Ac wrth feddwl am yr enw Saesneg ar y lle, sef 'Canterbury', fe glywn y gair 'canter' ynddo – carlamu ar gefn ceffyl! A bydd nifer ohonom wedi astudio'r 'Canterbury Tales' gan Chaucer yn yr ysgol a'r holl hanesion sydd ynddo am y Cristnogion cynnar. Cofiw'n hefyd am ddrama enwog T.S. Elliot 'Murder in the Cathedral', lle mae Thomas O'Beckett yn cael ei ladd wrth yr allor yn 1170 gan bedwar marchog, a Henry wedyn yn gorfod cyflawni penyd a dioddef cael ei chwipio yn yr eglwys i wneud iawn am ei drosedd. Mae'n siŵr bod nifer ohonoch yn gwybod am y cyfieithiad arbennig o'r ddrama gan Syr Thomas Parry, sef 'Lladd wrth yr Allor'.

Ond beth sydd gan y Beibl i'w ddweud wrthom ni am bererindod? Gadewch inni wrando ar ddarlleniad sy'n sôn am ufudd-dod Abraham wrth iddo gael ei annog gan Dduw i fynd ar ei bererindod epig ef. Sylwch wrth wrando nad oes syniad gan Abraham druan i ble mae'n mynd, ac mae'n gorfod rhoi heibio popeth oedd yn gyfarwydd iddo. Mae'n gorfod mynd o'i gynefin diwylliedig a'i gartref sefydlog a chyfforddus i rywle hollol ddieithr! A dyw e ddim yn cwestiynu nac yn gohirio; yn hytrach, mae'n ymateb i Dduw gydag ufudd-dod ffyddiog. Gellir deall pam y dywed rhai bod ideoleg y pererin wedi'i grynhoi yn yr hanes hwn!

**DARLLENIAD:** Genesis 12: 1–9

## **CYRCHFAN 2 / SGRIN 2**

Mor bell yn ôl â'r bedwaredd ganrif, mae yna sôn am y pererinion Cristnogol cyntaf. Arferent deithio i fannau cysegredig oedd yn gysylltiedig â Christ. Sant Jerome a'r Santes Helen oedd y rhai cyntaf i annog pobl i fynd i Jerwsalem. Ond gan fod y daith i Jerwsalem braidd yn bell, daeth lleoliadau eraill yn boblogaidd megis Lourdes, sy'n gysylltiedig â Mair wrth gwrs – ac erbyn hyn mae Lourdes yn cael dros 5 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn!

Roedd llwybr Sant Iago yn bwysig iawn yn yr Oesoedd Canol, ac mae'n parhau felly hyd heddiw ac yn diweddu yn Santiago de Compostela. Nawddsant Sbaen yw Iago – roedd yn un o feibion Sebedeus a brawd Ioan. Dyma ddywed y Pab Benedict XVI (ef oedd y Pab rhwng 2005 a 2013): 'Nid pwrpas pererindod yw mynd i weld trysorau mewn man arbennig, ond yn hytrach camu allan ohonom ein hunain i gael y profiad o Dduw mewn man lle yr ymddangosodd, a lle mae ei Ras

Ef wedi disgleirio mewn modd arbennig. Fe â Cristnogion i Compostela gyda'r awydd i gryfhau eu hysbryd drwy ffydd a chariad.'

Pe byddech yn mynd yno fe fyddech yn cael tystysgrif, sef 'compostela' ac fe welech emblem arbennig yn eich cyfeirio ar hyd eich taith, sef cragen lago. Mae cael cragen yn profi eich bod wedi bod yno ac maent i'w gweld ym mhobman o gwmpas yr ardal – ar y waliau, ar y ffyrdd ac ati.

Oes yna unrhyw un ohonoch wedi clywed am gyfrol gan Tom Parry Jones o'r enw *Teisennau Berffro*? Brodor o Falltraeth oedd yr awdur, a Tŷ Pigyn oedd enw ei gartref. Enillodd y gyfrol y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 1957, wedi i'r awdur ennill y Gadair hefyd yn 1945. Mae'r llyfr yn llawn o straeon am drigolion gwerinol gorllewin Môn. Arferai'r bobl fwynhau'r ffair flynyddol, ac yno y caed bisgedi tebyg i 'shortbread' a elwid yn 'Bisgedi Berffro'. Byddai'r bobl leol yn defnyddio cragen lago i fowldio siâp y fisgïen; gellir gwneud hynny heddiw hefyd, wrth gwrs, neu gallwch brynu torrwr arbennig siâp cragen erbyn hyn. Maent yn hawdd i'w gwneud ac yn flasus tu hwnt!

### **BISGEDI BERFFRO** (*Gellir rhannu'r rysâit i bawb ar daflen*)

**Cynhwysion:** 4 owns/125g menyn; 2 owns/55g siwgr mân; 6 owns/180g blawd plaen.

**Dull:** cymysgwch y menyn a'r siwgr ac ychwanegwch y blawd ychydig ar y tro. Rholiwch y gymysgedd i drwch ffôn symudol, a thorrwch i siâp cragen neu eu mowldio i mewn i gragen i greu'r siâp. Pobwch am 5–20 munud, neu hyd nes eu bod yn euraidd. Addurnwch â siwgr mân.

**EMYN 686** 'O Iesu mawr, rho d'anian bur'

### **CYRCHFAN 3 / SGRIN 3**

Yma yng Nghymru, mae nifer o leoliadau cysegredig sy'n annwyl inni. Rydyn ni'n gyfarwydd â'r pennill a luniodd T. Gwynn Jones wrth syllu ar Ynys Enlli o Fae Ceredigion ar hwyrdydd o haf:

Pe cawn i egwyl rhyw brynhawn  
Mi awn ar draws y genlli  
A throi fy nghefn ar wegi'r byd  
A'm bryd ar Ynys Enlli.



Roedd dwy daith i Ynys Enlli, medden nhw, yn gyfystyr â theithio i ddinas Rhufain unwaith, yn yr un modd ag yr oedd tair siwrnai i Dyddewi. Mae'n siŵr eich bod, amryw ohonoch, wedi mwynhau ymweld â'r mannau hyn. Beth am Dreffynnon yn sir y Fflint? Fuoch chi yno erioed? Mae hanes y ferthyres Gwenffrewi o'r seithfed ganrif yn un dramatig! Cafodd ei dienyddio gan Caradog oherwydd ei fod yn anfodlon ei bod hi'n benderfynol o fynd yn lleian. Achubwyd hi gan Sant Beuno, a ffrydiodd ffynnon yn y fan a'r lle. Mae nifer fawr o ymwelwyr yn dal i deithio yno i roi eu traed yn y dŵr bywiol. Ac os ewch chi ryw dro i Abaty Amwythig, cofiwch fynd i weld y sgrin hardd sydd yno i gofio am Gwenffrewi.

Prif noddwr Taith y Pererinion yng ngogledd Cymru yw Dr Rowan Williams. Mae'n cymryd pythefnos gyfan i ymlwybro'r 130 o filltiroedd (wrth gerdded 12 milltir y dydd!). Ceir enwau hyfryd ar rai o'r eglwysi ar hyd y daith, megis Rhydyclafdy ar y ffordd i Enlli, ac Eglwys Pistyll sydd â thraddodiad o daenu blodau a gwair ar lawr y fynedfa. Mae eglwys Beuno yng Nghlynnog yn lle hyfryd hefyd.

Oes ganddoch chi fannau sy'n gysegredig i chi, neu sy'n leoliadau hoff gennych? Beth am Ynys Llanddwyn, neu Eglwys Cwyfan, neu . . . (gellir amrywio'r enghreifftiau i'r ardal leol neu holi'r gynulleidfa am eu hoff leoliadau hwy).

Gwrandewch yn awr ar gerdd hyfryd arall gan T. Gwynn Jones, sef Rhos y Pererinion, ac wrth wrando dychmygwch fan sy'n arbennig ichi, neu y cawsoch chi fendith o deithio yno. Caewch eich llygaid ac ymlonyddu i wrando.

*(Nodyn cyfarwyddyd: gellir cael unawdydd i ganu, efallai, neu i adrodd y gerdd, neu mae Bryn Terfel yn ei chanu ar ei CD – Caneuon Meirion Williams.)*

- |  |   |
|--|---|
| 1) Pe medrwn ado'r byd a'i bwys,<br>Gofidiau dwys a blinion,<br>Ba le y cawn i noddfa dlos?<br>Yn Rhos y Pererinion. | 2) Er bod trybeini lond y byd<br>A'i flodau'i gyd yn grinion,<br>Mae dysg a rhinwedd ddydd a nos<br>Yn Rhos y Pererinion. |
| 3) O fyd y niwl cyfodi wnafl,<br>A hwyliaf ar fy union<br>Dros fôr a thir, a ffin a ffos<br>Hyd Ros y Pererinion.    | 4) Caf yno fyw dan fendith saint,<br>A braint eu glân gyfrinion,<br>Ac ni ddof byth i dir y nos<br>O Ros y Pererinion.    |

## **CYRCHFAN 4 / SGRIN 4**

Ond beth mae pererindod yn ei olygu heddiw? Yn ôl ymchwil a wnaed yn y Ganolfan Astudio Cristnogaeth a Diwylliant yn Efrog, ein cadeirlannau yw'r manau y mae pobl yn dewis mynd i eistedd yn dawel a myfyrio ynddynt, gan wybod y byddant yn cael llonydd, heb gael eu holi a heb dynnu sylw atynt eu hunain! Fel rhan o'r ymchwil hon bu i'r Ganolfan Astudio arsylwi ar batrymau pererinion heddiw, a gwelwyd fod ymwelwyr yn dewis rhyw le arbennig er mwyn ymweld â gweithiau celf yno, neu efallai i weld y bensaerniaeth, neu i gael gwranddo ar ddarn o gerddoriaeth. Byddai nifer hefyd yn dymuno cyflawni gweithred symbolaidd yn ystod yr ymweliad, megis goleuo kannwyll, sgrifennu neges neu weddi, neu gyffwrdd â rhywbeth sanctaidd. Roedd yr ymwelwyr i gyd yn chwilio am brofiad y pererin – rhywbeth ysbrydol ac ystyrion, yn ogystal â'r ymdeimlad o berthyn. Mae pwynt i daith y pererin o hyd, felly, ac mae'r pererin yn dal i ddyheu am ffocws yn union fel pob pererin ar hyd yr oesau.

Pererinion ar y ddaear ydym ni un ac oll. Trigolion dros dro ydym, gwyddom hynny, ac ie, taith yw bywyd pob Cristion tuag at ei gartref tragwyddol. Gallwn, fel Abraham, geisio ein gorau glas i ufuddhau'n ffyddiog i Dduw, yng nghanol byd sy'n oer a chythryblus yn aml. Rhown ein bryd ar ddal ati, ar fynd yn ein blaenau, fel pobl ac fel eglwysi, gyda gobaith. Ac eto, fel Abraham, mae angen inni ymddiried yn ein Duw a chymryd y camau heddiw nawr! Cofiwn yr wythfed adnod o'r chweched bennod o lyfr Micah: 'Dyweddodd yr Arglwydd wrthyt beth sydd dda, a'r hyn a gais Ef gennyt: dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru ffyddlondeb a rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.'

Dyna ichi gysur, dyna ichi gefnogaeth, dyna ichi obaith! A gallwn gofio mai o'n mewn mae goleuni a teyrnas Dduw – waeth pwy ydym, pa bynnag oed, pa bynnag broffesiwn, beth bynnag ein sefyllfa.

## GWEDDI

Annwyl Dad, bydd gyda ni ar ein pererindodau personol. Pâr inni'th glywed Di'n siarad â ni fel y gwnest gydag Abraham. Pan fyddwn fel unigolion ac eglwysi'n chwilio amdanat, dod wnei di i'n harwain, ein cynghori, a'n cyfeirio ymlaen ar ein taith. Agorwn ein calonau'n ddiolchgar, a datgan ein diolch mor aml ag y bo modd.

Nid oes inni offeiriad  
 Ond Iesu Grist ei hun,  
 Nac ordeiniadau eraill  
 Ond geiriau mab y dyn . . .

Ti wyddost ein dyheadau, ein pryder, a'n llawenydd. Cyfeiria ein camau a boed inni deimlo'r llawenydd o'th gael Di yn gwmni ar hyd ein hyfory. Beth bynnag ddaw i'n cyfarfod, fe allwn ymaflyd yn dy law. Boed y daith yn gân i gyd, a chadw ni'n dy gwmni Di o hyd. Amen

**EMYN 800** 'Un cam bach ar hyd y byd yr af'

## GRAS

(S.M.)